Canllawiau ar ffurflenni rhoi caniatâd HFEA

Bwriedir i ffurflenni rhoi caniatâd yr Awdurdod Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg (HFEA) gael eu defnyddio gan roddwyr, cleifion a'u partneriaid yng nghanolfannau trwyddedig HFEA i gofnodi bod unigolyn yn rhoi caniatâd ar gyfer gwahanol agweddau ar driniaeth ffrwythloni. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau cefndirol ar ffurflenni rhoi caniatâd HFEA.

Caniatâd i drin, storio a/neu roi

Mae Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau trwyddedig gael caniatâd hyddysg ysgrifenedig gan unigolyn cyn iddynt storio neu ddefnyddio ei wyau, ei sberm neu ei embryonau. Mae'n rhaid i'r unigolyn gael:

- digon o wybodaeth i'w alluogi i ddeall natur, diben a goblygiadau ei driniaeth neu ei rodd,
- cyfle addas i gael cyngor priodol ar oblygiadau'r camau y mae'n ystyried eu cymryd,
- gwybodaeth am y weithdrefn ar gyfer amrywio unrhyw ganiatâd a roddwyd neu ei dynnu'n ôl, ac am oblygiadau gwneud hynny.

Mae HFEA yn rhoi'r ffurflenni rhoi caniatâd canlynol i ganolfannau gael caniatâd:

Triniaeth

MT	Eich caniatâd i ddefnyddio eich sberm a'ch embryonau ar gyfer triniaeth eich partner a storio eich embryonau
WT	Eich caniatâd i ddefnyddio eich wyau a'ch embryonau ar gyfer eich triniaeth a storio eich embryonau
MGI	Eich caniatâd i ddefnyddio eich sberm at ddibenion ffrwythloni artiffisial
WGI	Eich caniatâd i ddefnyddio eich wyau mewn rhaglen GIFT

Storio

GS	Eich caniatâd i storio eich wyau neu eich sberm
LGS	Eich caniatâd i ymestyn y cyfnod y caiff eich wyau neu eich sberm eu storio
ES	Eich caniatâd i ymestyn y cyfnod y caiff eich embryonau eu storio

Rhoi

MD	Eich caniatâd i ddefnyddio a storio'r sberm a roddwyd gennych
WD	Eich caniatâd i ddefnyddio a storio'r wyau a roddwyd gennych
ED	Eich caniatâd i ddefnyddio a storio'r embryonau a roddwyd gennych

Geni plant ar ran pobl eraill

MSG	Eich caniatâd i ddefnyddio a storio eich sberm neu eich embryonau at ddibenion geni plant ar ran pobl eraill
WSG	Eich caniatâd i ddefnyddio a storio eich wyau neu eich embryonau at ddibenion geni plant ar ran pobl eraill

Tynnu'n ôl

WC	Tynnu eich caniatâd yn ôl neu ddatgan nad ydych yn rhoi caniatâd

Caniatâd i ddatgelu gwybodaeth

Mae Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i beidio â datgelu unrhyw wybodaeth a ddelir gan glinigau neu HFEA am unigolion mewn perthynas â'u triniaeth, neu driniaeth eu partner, gametau ac embryonau sydd wedi'u storio neu eu rhoi, a allai ddatgelu pwy ydynt, i drydydd partïon (ee, ymchwilydd neu feddyg teulu claf) heb ganiatâd, ac eithrio mewn achos meddygol brys. Mae'r ffurflen ganlynol yn galluogi clinigau i gael y caniatâd hwn:

CD Eich caniatâd i ddatgelu gwybodaeth a allai ddangos pwy yw unigolyn

Dibenion clinigol

Mae Adran 3 o ffurflen CD yn ymwneud â datgelu gwybodaeth gan glinigau. Gall claf roi caniatâd i glinigau ddatgelu gwybodaeth am ei driniaeth neu driniaeth ei bartner, gametau a/neu embryonau sydd wedi'u storio neu eu rhoi, a allai ddatgelu pwy ydynt. Gellir datgelu'r wybodaeth hon i'w feddyg teulu, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill (er mwyn rhoi'r gofal meddygol gorau posibl) a/neu archwilwyr a staff gweinyddol (er mwyn iddynt gyflawni swyddogaethau a roddwyd iddynt mewn cysylltiad â gweithgareddau trwyddedadwy'r ganolfan).

Dibenion ymchwil

Mae Adran 4 yn ymwneud â gwybodaeth a ddelir ar gofrestr HFEA. Gall claf roi caniatâd i HFEA ddatgelu gwybodaeth am ei driniaeth neu driniaeth ei bartner neu gametau a/neu embryonau a gaiff eu storio, a allai ddatgelu pwy ydynt.

Diben y caniatâd hwn yw galluogi ymchwilwyr i ddefnyddio'r wybodaeth am driniaeth unigolion neu gametau a/neu eu embryonau a gaiff eu storio i ymchwilio i ddiogelwch ac effeithiolrwydd triniaethau ffrwythloni.

Lle y bo hynny'n bosibl, dim ond gwybodaeth ddienw a ddefnyddir ar gyfer ymchwil, ond weithiau mae angen i ymchwilwyr ddefnyddio gwybodaeth a allai ddatgelu pwy yw unigolyn (fel enw neu ddyddiad geni) er mwyn gwneud cysylltiadau rhwng dwy set wahanol o ddata (er enghraifft, cofrestr HFEA ar IVF â chofrestr ganser gyffredinol). Bydd hyn yn galluogi ymchwilwyr i ymchwilio i dueddiadau o ran iechyd cleifion IVF. At hynny, bydd yn ei gwneud yn bosibl i ymchwilio i ganlyniadau ar gyfer plant IVF, neu ffactorau a allai wneud gwahaniaeth o ran p'un a yw IVF yn gweithio ai peidio (er enghraifft, a yw rhoi'r gorau i ysmygu yn effeithio ar gyfraddau llwyddiant IVF).

Mae'r wybodaeth ar gofrestr HFEA yn cynnwys manylion cleifion a'u triniaeth a chanlyniadau'r driniaeth honno. Caiff pob achos lle mae ymchwilwyr yn cael gafael ar wybodaeth bersonol ei reoli gan reolau llym sy'n diogelu unrhyw ddata a ddelir ganddynt neu y maent yn cael gafael arni. Os bydd ymchwilwyr yn cyhoeddi canfyddiadau eu hymchwil, maent yn sicrhau nad oes modd canfod pwy yw unrhyw un y defnyddiwyd ei ddata ar gyfer yr ymchwil.

Ni ofynnir i roddwyr na'r rhai sy'n cael triniaeth gan ddefnyddio gametau neu embryonau a roddwyd roi eu caniatâd ar gyfer ymchwil. Dim ond gwybodaeth ddienw a gaiff ei datgelu am driniaeth lle y defnyddir gametau neu embryonau a roddwyd.

Ers 1 Mai 2010, mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n cael triniaeth gwblhau ffurflen CD (os nad yw wedi gwneud hynny eisoes) ni waeth pryd y gwnaeth gofrestru gyntaf gyda chlinig i gael triniaeth.

Caniatâd i fod yn rhiant

Os bydd triniaeth ffrwythloni yn cynnwys defnyddio sberm rhoddwr, embryonau a grëwyd gan ddefnyddio sberm rhoddwr neu embryonau rhoddwr, mae Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau trwyddedig gael caniatâd hyddysg ysgrifenedig gan unigolion i fod yn rhiant cyfreithiol. Mae angen gwahanol ganiatadau gan ddibynnu ar b'un a yw'r claf yn briod/mewn partneriaeth sifil ai peidio neu a yw'n ddibriod/heb fod mewn partneriaeth sifil. Am wybodaeth am hyn gweler www.hfea.gov.uk

Mae HFEA yn rhoi'r ffurflenni rhoi caniatâd canlynol i ganolfannau er mwyn i gleifion a'u partneriaid allu rhoi'r caniatâd cywir i fod yn rhiant:

PP Eich caniatâd i gael eich enwi yn rhiant cyfreithiol y plentyn
WP Eich caniatâd i'ch partner gael ei enwi yn rhiant cyfreithiol y plentyn
WC Tynnu eich caniatâd yn ôl neu ddatgan nad ydych yn rhoi caniatâd

Tynnu caniatâd yn ôl neu ei amrywio

Gall unigolyn amrywio ei ganiatâd neu ei dynnu'n ôl hyd nes y defnyddir wyau, sberm neu embryonau. Ystyrir bod wyau, sberm ac embryonau wedi'u defnyddio pan gânt eu:

- trosglwyddo i ferch
- defnyddio mewn prosiect ymchwil (pan fyddant o dan reolaeth yr ymchwilwyr ac yn cael eu meithrin i'w defnyddio mewn ymchwil)
- defnyddio at ddibenion hyfforddi (pan fyddant o dan reolaeth unigolion sy'n hyfforddi), neu pan
- ganiateir iddynt farw.

Gellir tynnu caniatâd yn ôl drwy gwblhau ffurflen WC, neu drwy roi hysbysiad ysgrifenedig mewn ffordd arall.

Pan fydd unigolyn yn amrywio ei ganiatâd dylid cwblhau ffurflen rhoi caniatâd newydd. Er enghraifft, os bydd claf â sberm sy'n cael ei storio yn defnyddio ffurflen WC i dynnu'n ôl ei ganiatâd i'r sberm hwn gael ei ddefnyddio ar ôl iddo farw, dylid cwblhau ffurflen MT newydd.

Newid amgylchiadau

Dylai cleifion a rhoddwyr hysbysu'r ganolfan o unrhyw newidiadau i'w manylion, er enghraifft newid cyfeiriad neu newid partner. Dylai cleifion a rhoddwyr hefyd ystyried beth yr hoffent i'r ganolfan ei wneud â'u hwyau, eu sberm neu eu hembryonau os byddant yn marw neu'n feddyliol analluog.

Gall unigolyn roi caniatâd i wyau, sberm neu embryonau gael eu storio neu eu defnyddio ar ôl iddo farw neu os bydd yn feddyliol analluog gan ddefnyddio'r ffurflenni rhoi caniatâd. Os na roddir caniatâd caiff yr wyau, y sberm neu'r embryonau eu gadael i farw.

Cynghori a gwybodaeth

Cyn cwblhau unrhyw ffurflen rhoi caniatâd, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n rhoi'r caniatâd gael cyfle addas i gael cyngor priodol ar oblygiadau'r camau arfaethedig ac mae'n rhaid iddo gael yr holl wybodaeth berthnasol fel y nodir yng Nghod Ymarfer HFEA. Mae'n bosibl y bydd canolfannau am gyfeirio at y Cod Ymarfer lle yr esbonnir y gofyniad hwn.

Cyfyngu ar ganiatâd

Gall unigolyn gyfyngu ar ei ganiatâd i'w wyau, ei sberm neu ei embryonau gael eu storio neu eu defnyddio. Er enghraifft, gall rhoddwr nodi mai dim ond i drin derbynnydd hysbys y gellir defnyddio ei rodd. Gellir nodi cyfyngiadau naill ai ar ffurflen rhoi caniatâd neu ar bapur ar wahân a lofnodwyd, a ddyddiwyd ac a atodwyd i'r ffurflen.

Rhoi

Er mwyn rhoi wyau, sberm neu embryonau ar gyfer triniaeth rhywun arall, at ddibenion ymchwil neu hyfforddiant, mae angen i roddwyr fodloni rhai meini prawf i gadarnhau eu bod yn addas (er enghraifft, meini prawf oedran a phrofion sgrinio.

Rhoi ar gyfer triniaeth – Mae rhoi wyau, sberm ac embryonau ar gyfer triniaeth unigolyn arall yn rhoi cyfle i'r rhai na fyddent yn gallu cael plant fel arall wneud hynny. Cyn dechrau'r broses, dylai'r ganolfan roi gwybodaeth am y gofynion o ran sgrinio rhoddwyr a'r materion cyfreithiol sy'n ymwneud â bod yn rhiant a rhoi wyau, sberm ac embryonau i roddwyr. Am ragor o wybodaeth am roi at ddibenion triniaeth gweler www.hfea.gov.uk

Rhoi at ddibenion ymchwil a hyfforddiant – Mae rhoi wyau, sberm ac embryonau at ddibenion ymchwil a hyfforddiant yn ei gwneud yn bosibl cynnal gwaith ymchwil (ee, cynyddu gwybodaeth am glefydau difrifol a sut i'w trin), a hyfforddi pobl yn nhechnegau biopsi embryonau a storio embryonau neu dechnegau embryolegol eraill. Cyn i roddwyr roi caniatâd ar gyfer hyn, dylai'r ganolfan roi gwybodaeth am y prosiect ymchwil neu'r hyfforddiant penodol a'i nodau iddynt. Am ragor o wybodaeth am roi at ddibenion ymchwil a hyfforddiant gweler www.hfea.gov.uk

Caniatâd i ddefnyddio gametau ac embryonau at ddibenion hyfforddi

Pan fydd unigolyn am i'w wyau, ei sberm neu ei embryonau gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi, mae'n rhaid iddo roi caniatâd ysgrifenedig ar gyfer hyn. Ystyrir yr opsiwn hwn amlaf pan fydd wyau, sberm neu embryonau dros ben nad oes eu hangen ar gyfer triniaeth claf, er y gellir casglu sberm hefyd at ddibenion hyfforddi yn unig.

Ceir rhestr o weithgareddau hyfforddi y gellir defnyddio embryonau ar eu cyfer ar wefan HFEA. Gall y dibenion hyfforddi y gellid defnyddio gametau ar eu cyfer amrywio gan ddibynnu ar anghenion pob clinig.

Efallai y bydd cleifion am gael mwy o wybodaeth am hyn gan eu clinig cyn rhoi caniatâd.

Gwybodaeth clinigau

Mae'n ofynnol i staff clinigau sy'n cael caniatâd gofnodi rhif y claf neu'r rhoddwr yn y troednodyn ar bob tudalen o'r ffurflen rhoi caniatâd. Os caiff tudalennau eu gwahanu oddi wrth ei gilydd bydd hyn yn helpu i ganfod y tudalennau. Fodd bynnag, mae cofnodi cyfeirnod y ganolfan HFEA, ffurflenni perthnasol eraill ac am faint o amser y caiff gametau neu embryonau eu storio yn ddewisol.

Dolenni defnyddiol

Human Fertilisation and Embryology Authority – www.hfea.gov.uk

British Infertility Counselling Association – www.bica.net

Infertility Network UK – www.infertilitynetworkuk.com

National Gamete Donation Trust – www.ngdt.co.uk

Donor Conception Network – www.dcnetwork.org

Rhestr Termau

Cynghori
Nod cynghori yw galluogi cleifion neu roddwyr a'u partneriaid i ddeall goblygiadau triniaeth anffrwythlondeb, rhoi cymorth emosiynol iddynt a'u helpu i ymdopi â chanlyniadau triniaeth.

Embryo
Ŵy wedi'i ffrwythloni a allai ddatblygu'n ffetws.

Ffrwythloni
Rhoi sberm ym mhibell atgenhedlu'r ferch drwy ddulliau artiffisial. Gellir cyflawni'r weithdrefn hon gan ddefnyddio sberm newydd ei fwrw neu sberm sydd wedi'i rewi.

Ffrwythloni gan roddwr (DI)
Cyflwyno sberm rhoddwr i'r wain, ceg y groth neu'r groth ei hun.

Ffrwythloni In Vitro (IVF)
Caiff yr wyau a'r sberm eu casglu a'u cymysgu mewn labordy er mwyn cenhedlu plentyn y tu allan i'r corff. Gellir trosglwyddo'r embryonau a grëir i'r claf benyw.

Ffrwythloni yn y Groth (IUI)
Cyflwyno sberm i groth merch.

Gametau
Y sberm gwryw neu'r ŵy benyw a all ymgyfuno i ffurfio sygot.

Geni plant ar ran pobl eraill
Y broses lle mae merch yn cario babi ar ran unigolyn arall. Mae'r broses lawn yn cynnwys mewnblannu embryo a grëwyd gan ddefnyddio naill ai wyau a sberm y darpar rieni, ŵy a roddwyd ac a ffrwythlonwyd â sberm y darpar dad neu embryo a grëwyd gan ddefnyddio wyau a sberm a roddwyd.

Mae'r broses rannol yn cynnwys sberm gan y darpar dad ac ŵy gan y fam fenthyg.

Gwybodaeth a allai ddatgelu pwy yw unigolyn / Gwybodaeth ddienw
Gwybodaeth sy'n datgelu pwy yw unigolyn, neu a allai wneud hynny (er enghraifft, enw neu ddyddiad geni).

Mae gwybodaeth ddienw yn golygu gwybodaeth am unigolyn na allai ddatgelu pwy ydyw (er enghraifft, lliw gwallt neu ethnigrwydd).

In vitro
Fe'i cyflawnir y tu allan i'r corff (hy, yn y labordy).

In vivo
Fe'i cyflawnir yn y corff.

Rhannu wyau
Trefniant lle mae merch sy'n ceisio triniaeth IVF yn cael un cylch o driniaeth lle y cesglir ei hwyau. Mae'n defnyddio cyfran o'r wyau hyn wedyn ar gyfer ei thriniaeth ei hun ac yn rhoi'r wyau sy'n weddill i ferch arall. Gall y ferch sy'n rhoi'r wyau gael buddion megis gostyngiad yng nghost ei thriniaeth.

Rhewi embryonau
Gellir rhewi embryonau nad oes eu hangen ar gyfer triniaeth mewn cylch a'u storio i'w defnyddio yn y dyfodol. Gelwir rhewi yn gryogadwraeth hefyd.

Rhoi
Mae'r term 'rhoi' yn ymwneud â rhoi sberm, wyau neu embryonau i'w defnyddio mewn triniaeth ffrwythlondeb, ar gyfer ymchwil neu at ddibenion hyfforddi.

Storio embryonau
Storio un neu ragor o embryonau i'w defnyddio yn y dyfodol drwy eu rhewi.

Sygot
Y gell a ffurfir o ganlyniad i ffrwythloni.

Trosglwyddo embryonau
Rhoi embryonau yn ôl yn y claf benyw.

Trosglwyddo Gametau o Fewn y Tiwb Ffalopaidd (GIFT)
Gweithdrefn lle y caiff wyau eu casglu o ferch, eu cymysgu â sberm a'u rhoi yn ôl ar unwaith yn y naill neu'r llall o diwbiau ffalopaidd y ferch er mwyn cenhedlu plentyn y tu mewn i'r corff (in vivo).